



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 Mai 2018

Adroddiad gan: Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Pwnc: Y Gymraeg mewn Addysg

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r cynigion a amlinellir isod (4) er mwyn grymuso'r Awdurdodau a'r Rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru fel y nodir yn:

- *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Y Gymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4

2.0 CEFNDIR

2.1 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*: mae ymateb i'r her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol. Nod LIC yw:

- **Addysg statudol:** creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.
- **Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau:** cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:
 - y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
 - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen

Er mwyn cyflawni'r targed bydd Llywodraeth Cymru yn gyrru'r newidiadau trawsnewidiol canlynol o fewn y sector addysg:

- Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y

cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

- Gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.
- Cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 ac i 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050; a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 ac i 4,200 erbyn 2050.

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21: bydd llunio cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu sy'n gweddnewid yn hanfodol i wireddu gweledigaeth LIC ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Y nod yw sicrhau y bydd ganddynt safonau llythrennedd a rhifedd uwch, byddant yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a byddant yn datblygu'n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Bydd y cwricwlwm cenedlaethol yn seiliedig ar degwch a rhagoriaeth ac yn helpu i feithrin y bobl ifanc yn ddinasyddion hyderus, galluog a gofalgar. Mae datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr wrth wraidd y diwygiadau hyn.

Gweledigaeth Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21 yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd. Mae egwyddorion arweiniol y ddogfen hon fel a ganlyn:

- Cydnabyddir a gwerthfawrogir bod addysgu a dysgu'r Gymraeg yn rhan annatod o system addysgu Cymru o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth ôl-orfodol.
- Drwy'r cwricwlwm newydd bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, a thrwy lwyfannau digidol, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Gall dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg atgyfnerthu'r broses o ddysgu'r Gymraeg a galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.
- Mae pob ymarferydd ac arweinydd yn datblygu eu sgiliau Cymraeg a hefyd eu dealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol a diwylliannol.
- Mae ymchwil i gaffael iaith, dwyieithrwydd ac addysgu Cymraeg effeithiol yn llywio'r addysgu a'r dysgu.
- Wrth ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gall plant a phobl ifanc ddatblygu sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd ychwanegol, yn barod i fod yn ddinasyddion ar gyfer Cymru a'r byd.

Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4: daeth adolygiad annibynnol o Gymraeg ail iaith yn 2013 i'r casgliad ei bod yn 'unfed awr ar ddeg i Gymraeg ail iaith'. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r cwricwlwm i gynnwys 'un continwmm o ddysgu Cymraeg, ynghyd â disgwiliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog'.

Yn dilyn cyhoeddi *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* 10, ym mis Chwefror 2015, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r Gymraeg barhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed ac y 'dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu'. Derbyniodd LIC argymhellion yr adolygiad a chytunwyd y byddai continwmm dysgu Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd i Gymru. Bydd y continwmm hwn yn sail ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg ac ieithoedd eraill yn y dyfodol.

Strategaeth Ranbarthol: Yn ogystal, mae LIC yn awyddus i'r consortia addysg lunio strategaeth ranbarthol ar gyfer y Gymraeg. Disgwylir i'r strategaeth adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion penodol y rhanbarth, ac Awdurdodau Lleol, gan roi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod Addysg
- Adroddiad Aled Roberts - Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod
- Strategaeth Iaith pob Awdurdod
- Strategaeth Iaith Uwchradd (Gwynedd yn unig)
- Gweithrediad ac effaith y Siarter Iaith Gymraeg ymhob Awdurdod
- Gweithrediad ac effaith Cymraeg Campus ymhob Awdurdod

2.2 Y SEFYLLFA BRESENNOL

IS-GRŴP Y GYMRAEG

Mae Is-grŵp Y Gymraeg yn rhan o fframwaith atebolrwydd GwE. Caiff materion sydd yn amlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw eu cyfeirio at y Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol (BAR) ac yna i'r Bwrdd Rheoli, yn ôl yr angen.

Hwylisir gwaith yr Is-grŵp gan Adran Addysg Gwynedd ar gais y Bwrdd Rheoli GwE, ac fe ystyrir materion fel y gosodwyd allan yn y Cynllun Busnes neu fel y gofynnir amdanynt gan y Bwrdd Rheoli, Llywodraeth Cymru ac ESTYN, gan gymryd cyngor fel y bo'n briodol.

Nodir swyddogaethau'r Is-grŵp fel a ganlyn:

- Llunio Cynllun Busnes er mwyn ymateb i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Sicrhau gweithrediad effeithiol o flaenoriaethau Cynllun Busnes yr Is-grŵp.
- Sicrhau atebolrwydd priodol o flaenoriaethau Cynllun Busnes yr Is-grŵp.
- Llunio adroddiad monitro/cynnydd Cynllun Busnes yr Is-grŵp a'i ddadansoddi ar sail cyflawniad a risg pellach.
- Yn unol â'r drefn gytunedig, cyfeirio materion sydd yn eu hamlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw at y Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ar gyfer ystyriaeth bellach.
- Paratoi adroddiad monitro chwarterol i'r Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol.
- Cyfrannu at gynllunio ac argymhell camau gweithredu i'r Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ynglŷn â grantiau ac adnoddau rhanbarthol.

Prif flaenoriaethau Cynllun Busnes 2017-18 yr Is-grŵp oedd:

- i. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

- ii. Siarter Iaith Genedlaethol Ysgolion Cynradd - (Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc).
- iii. Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg / Canolfannau Iaith.
- iv. Hyfforddi'r gweithlu presennol ar draws y rhanbarth / Recriwtio a chadw staff dwyieithog.
- v. Cynllunio bwriadus a sicrhau dilyniant o'r Blynyddoedd Cynnar.
- vi. Y Gymraeg fel Ail Iaith.
- vii. Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Uwchradd

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r system addysg yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd. Yn sgil hyn, mae rôl a chylch gorchwyl yr Is-grŵp wedi esblygu yn sgil prosiectau penodol megis y Siarter Iaith a'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu. Amlinellir isod trefniadau presennol y prosiectau penodol yma.

TREFNIADAU RHEOLI SIARTER IAITH RHANBARTH Y GOGLEDD ERS 1 EBRILL 2017

Cefnogir y gwaith o ledaenu'r Siarter Iaith gan Adran Addysg Gwynedd. Penderfynwyd gan Fwrdd Rheoli GwE ym mis Tachwedd 2016 y byddai tri Chydlynnydd Siarter Iaith yn cael eu penodi ar gyfer Gwynedd/Môn, Conwy/Dinbych a Wrecsam/Fflint.

Sefydlwyd cyfundrefn reoli, monitro a sicrhau ansawdd bwrpasol ar gyfer gwaith y Siarter yn rhanbarthol. Mae'r Siarter Iaith yn un o flaenoriaethau sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Busnes yr Is-grŵp (Lefel 2) gyda chynlluniau busnes y tri Chydlynnydd (Lefel 3) yn bwydo i mewn i'r cynllun rhanbarthol hwn.

DATBLYGU'R GWEITHLU I GEFNOGI'R GYMRAEG MEWN ADDYSG

Yn 2017/18, bu i Lywodraeth Cymru ymrwymo i fuddsoddi £4.2m ychwanegol er mwyn rhoi hwb i addysgu a dysgu Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd yr arian a ddyrannwyd ar gyfer:

- Cefnogi'r gwaith o ddarparu ac ehangu'r cynllun Sabothol Cenedlaethol i athrawon cynradd ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Gwella sgiliau Cymraeg dysgwyr drwy gyfleoedd anffurfiol – rhaglen o gymorth i helpu ysgolion cyfrwng Saesneg
- Denu graddedigion cyfrwng Cymraeg – angen recriwtio mwy o raddedigion i fod yn athrawon yn y sector cyfrwng Cymraeg ac i addysgu Cymraeg fel pwnc.

Yn ychwanegol bu i bob consortiwm addysg dderbyn dyraniad ychwanegol tuag at ddatblygiad proffesiynol sgiliau Cymraeg ac addysgeg addysgu ymarferwyr.

Roedd yn ofynnol i'r consortia ymgymryd â rhaglen o waith fyddai'n cynnwys:

- datblygu dealltwriaeth o sgiliau iaith ymarferwyr y rhanbarth a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg:
- adnabod ymarferwyr i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol, ar wahanol lefelau, a chydweithio gyda darparwyr y Cynllun a'r Llywodraeth i flaenoriaethu cyrsiau'r Cynllun.

- cynnal rhaglen o ddatblygu proffesiynol iaith Gymraeg i ymarferwyr sydd yn cefnogi ac yn ategu'r Cynllun Sabothol ac sy'n cynnwys cyfleoedd mentora, cefnogaeth ysgol i ysgol ayb.
- rhannu arfer da o ran addysgeg effeithiol.

O ganlyniad, yn 2017/18, bu i Gonsortiw Addysg GwE dderbyn dyraniad grant o £557,051. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect i lywio'r gwaith ac mae'r rhaglen waith yn cynnwys cydweithio ar draws 6 awdurdod addysg y Gogledd.

Ar gyfer 2018/19, mae GwE wedi derbyn dyraniad grant pellach o £614,240.

GRANT GWELLA ADDYSG (GGA) / CYNLLUNIAU STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y tair blynedd gyntaf o gylch cynllunio y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), mae'r Awdurdodau bellach wedi symud ymlaen i'r cam cynllunio nesaf ar gyfer 2017-2020.

Mae angen ystyried y CSGA yng nghyd-destun strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â pholisïau a blaenoriaethau eraill LIC. Mae gofyn i'r CSGA amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn cyflawni nodau a thargedau LIC.

Mae'r CSGA wedi sefydlu sail gadarn ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Gymraeg ar draws Cymru ac addysg iaith Gymraeg a dwyieithog.

O ran y Grant Gwella Addysg (GGA), mae'r disgwyl i'r awdurdodau ei ddefnyddio i gefnogi gweithredu eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth a gynigir ar draws yr Awdurdodau yn amrywio ar draws y rhanbarth o Ganolfannau Iaith i Dimau Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg.

CYLLIDEB - CRYNODEB

	2017-2018	2018-2019
Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (Siarter Iaith)	£246,400	£241,400
Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg	£557,051	£614,240
Grant Gwella Addysg	£2,315,202	£2,138,991
CYFANSWM	£3,118,653	£2,994,631

3.0 MATERION I'W HYSTYRIED

3.1 CAMAU NESAF / 2018-19 YMLAEN

Mae *Cynllun gweithredu Y Gymraeg mewn addysg* yn gosod y cyfeiriad a champau gweithredu penodol ar gyfer gwireddu gweledigaeth LIC, gan bwysleisio'r angen i wella'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg.

Yr hyn sydd wedi amlygu ei hun yn sgil trafodaethau diweddar yw bod yna gyswllt amlwg ac annatod rhwng blaenoriaethau Cynllun Busnes yr Is-grŵp, cynllun 'Datblygu'r Gweithlu' a blaenoriaethau'r Bwrdd Prosiect, a deilliannau CSGA yr Awdurdodau.

Ar gyfer 2018-19, mae gofyn i'r consortiwm ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer defnyddio'r cyllid 'Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (Siarter Iaith)' a'r 'Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg', i'w gytuno gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Bellach mae yna fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid mewn ffordd wahanol, cyn belled a bod hyn yn cwrdd â'r gofynion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran datblygu'r Gymraeg.

Yn sgil hyn, mae'n amserol i adolygu'r strwythur rhanbarthol ar gyfer gosod cyfeiriad strategol i gefnogi'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau a'r Rhanbarth yn ymateb i, ac yn adlewyrchu cyfeiriad polisi'r Llywodraeth yn y maes hwn.

4.0 ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r argymhellion canlynol:

- Adolygu'r strwythur rhanbarthol ar gyfer gweithredu'n strategol i gefnogi'r Gymraeg.
- Sefydlu *Bwrdd Strategol Y Gymraeg* i arwain, chydlynu a rheoli maes y Gymraeg yn rhanbarthol dan arweiniad strategol GwE. Cytuno ar gylch gorchwyl, aelodaeth a threfn gweithredu, gan ddileu'r Is-grŵp yn ei ffurf bresennol.
- Lluio Cynllun Busnes Lefel 2 Rhanbarthol ar gyfer Y Gymraeg i sicrhau cyfeiriad strategol rhanbarthol yn y maes.
- Sefydlu byrddau prosiect sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r Cynllun Busnes er mwyn llywio ac arwain ar feysydd penodol. Bydd gofyn i'r byrddau prosiect lunio Cynllun Busnes Lefel 3 ar gyfer pob maes blaenoriaeth.
- Y Bwrdd Strategol i gymryd cyfrifoldeb am atebolrwydd a monitro chwarterol y Cynlluniau Busnes.
- Y Bwrdd Strategol i dderbyn adroddiadau monitro/cynnydd y Cynlluniau Busnes Lefel 3, a'u dadansoddi ar sail cyflawniad a risg pellach. Byddai materion sydd yn eu hamlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw yn cael eu cyfeirio at Fwrdd Rheoli GwE yn ôl yr angen.
- Cadeirydd Bwrdd Strategol y Gymraeg i fod yn gyfrifol am baratoi adroddiad monitro chwarterol.

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdodau – drwy'r Cynllun Busnes Lefel 2 Rhanbarthol ar gyfer Y Gymraeg, adnabod sut mae'r gwaith rhanbarthol yn cefnogi'r deilliannau / blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn CSGA. Byddai modd i'r Awdurdodau fwydo'r adroddiadau monitro chwarterol i'w Fforymau CSGA lleol.
- Bwrdd Strategol y Gymraeg i adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau fod adnoddau cyfredol yn cefnogi a diwallu anghenion lleol a rhanbarthol yn llawn ac effeithiol.

4.2 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Drwy weithredu'r drefn a amlinellir uchod byddai'n:

- Gosod cyfeiriad strategol clir ac effeithiol ac yn grymuso'r awdurdodau a'r rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni polisi a gweledigaeth Llywodraeth Cymru:
 - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.*
 - Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21
 - Y Gymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 2017-21
 - Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
 - Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod Addysg
 - Adroddiad Aled Roberts - Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod
 - Strategaeth iaith pob Awdurdod
 - Strategaeth iaith Uwchradd (Gwynedd yn unig)
 - Gweithrediad ac effaith y Siarter iaith Gymraeg ymhob Awdurdod
 - Gweithrediad ac effaith Cymraeg Campus ymhob Awdurdod
- Sicrhau gwell trefn a mwy o gysondeb rhanbarthol o ran cefnogi'r Gymraeg i ymateb i anghenion lleol.
- Sicrhau cydlynedd a chynhwysedd briodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.
- Sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau rhanbarthol a gwell gwerth am arian.
- Sicrhau fod arbenigeddau ac arferion da yn cael eu rhaedru ar draws y rhanbarth.

5.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Ar gyfer 2018-19, mae gofyn i'r consortiwm ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer defnyddio'r cyllid 'Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (Siarter iaith)' a'r 'Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg', i'w gytuno gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Bellach mae yna fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid mewn ffordd wahanol, cyn belled a bod hyn yn cwrdd â'r gofynion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran datblygu'r Gymraeg.

6.0 EFFAITH O RAN CYDRADDOLDEB

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 GOBLYGIADAU PERSONÉL

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 YMGYNGHORI A WNAED

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Argymhellion ar ffordd ymlaen sydd yn yr adroddiad presennol. Os yw'r Cydbwyllgor yn eu cymeradwyo yna bydd angen adroddiad pellach yn manylu yn ceisio cymeradwyaeth i drefniadau penodol. Mae'n bwysig hefyd fod y gwaith nesaf yn cyfarch unrhyw angen am gytundeb y Cynghorau unigol i elfennau llywodraethu, gweithredu neu ariannol perthnasol sydd yn deillio.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf gadarnhad "Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn" yn rhan 5.1 o'r adroddiad o dan 'Goblygiadau Ariannol'. Ar lefel ranbarthol, cytunaf nad oes oblygiadau ariannol uwchben y grant penodol sydd ar gael ar gyfer y gwaith adolygu a datblygu amlinellir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, deallaf gall y cynigion a amlinellir olygu ymhlygiadau i'r lefel o ddarpariaeth sydd i'w gyflawni gyda'r grant o fewn rhai awdurdodau addysg unigol.